**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Yr Athro Jon Timmis,
Is-Ganghellor,
Prifysgol Aberystwyth

12 Mawrth 2025

**Cais am wybodaeth**

Annwyl Yr Athro Jon Timmis,

Rydym wedi bod yn dilyn datblygiadau yn y sector addysg uwch yng Nghymru, yn enwedig yr heriau ariannol, a sut y mae hyn yn arwain at rai sefydliadau yn lleihau niferoedd staff a chyrsiau.

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Brifysgol Caerdydd ar 28 Ionawr, gwnaethom wahodd yr Is-Ganghellor i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol. Bydd y sesiwn hon yn cael ei chynnal ar 3 Gorffennaf.

Gwnaethom hefyd ofyn am wybodaeth yn ysgrifenedig cyn y sesiwn hon. Rydym bellach wedi penderfynu gofyn am wybodaeth debyg gan holl brifysgolion Cymru fel y gallwn ddeall yn well yr heriau y mae'r sector cyfan yn eu hwynebu.

Gofynnwn i chi ddarparu'r canlynol i ni:

- trosolwg o'ch asesiad o'r heriau ariannol y mae Prifysgol Aberystwyth yn eu hwynebu, gan gyfeirio at ddata allweddol sy'n sail i'r asesiad hwn (e.e. niferoedd myfyrwyr presennol a rhagweledig, cyfraddau derbyn, lefelau cronfeydd wrth gefn, ac ati) ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod a'r darlun tymor hwy;
- manylion am bolisïau penodol ar lefel Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU sydd wedi cael effaith sylweddol ar allu Prifysgol Aberystwyth i weithredu'n gynaliadwy; a
- y newidiadau sydd eisoes wedi'u gwneud yn y blynyddoedd diwethaf gennych chi neu eich rhagflaenwyr i liniaru effaith yr heriau ariannol y mae Prifysgol Aberystwyth yn eu hwynebu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb yn ysgrifenedig i'r cwestiynau a nodwyd erbyn 9 Ebrill fan bellaf.

Os oes gennych gwestiynau am ein cais, anfonwch neges at Glerc y Pwyllgor: SeneddPlant@Senedd.Cymru

Yn gywir,

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.